Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

# Gwasanaethau'r Gymraeg

## Adroddiad Monitro Blynyddol 2024-2025

*Author: Eleri Hughes-Jones*

Cynnwys | Tudalen


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb Gweithredol | 3 |
| Y Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol | 4 |
| Hunanreoleiddio a Llywodraethu | 5 |
| Safonau'r Gymraeg | 8 |
| Rhaglen Datblygu'r Gweithlu | 10 |
| Gwasanaethau Cyfieithu | 12 |
| Codi Ymwybyddiaeth ymhlith y Gweithlu Nawr ac yn y Dyfodol | 13 |
| Rhannu Canlyniadau Cadarnhaol i Gleifion | 16 |
| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | 17 |
| Edrych yn Ôl a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol | 19 |

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â dyletswydd statudol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) i ddarparu adroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (y Safonau) yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r gofynion a'r cynnwys fel y'i nodir yn Safon 120 y Safonau:

- Cwynion
- Cynllunio'r Gweithlu
- Recriwtio
- Sgiliau Iaith
- Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith Gymraeg

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn mynd i'r afael â chydymffurfio â chynllun pum mlynedd Llywodraeth Cymru, 'Mwy na geiriau'. Darperir trosolwg o'r cynnydd, gan gynnwys datblygiadau gwasanaeth a'r prif gyflawniadau yn ystod y cyfnod o fis Ebrill 2024 hyd at fis Mawrth 2025.

### Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd

Uchelgais y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod anghenion a dewis iaith cleifion yn dylanwadu ar y gwaith o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau.

Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol y Bwrdd Iechyd, sydd â'r nod o greu amgylchedd ffafriol lle mae cleifion a'r cyhoedd yn sicr o'r ymrwymiad i ddarparu gofal sy'n briodol o ran iaith.

Bu'r meysydd canlynol yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn adrodd:

- ***Adeiladu sefydliad effeithiol*** drwy sicrhau bod fframwaith hunanreoleiddio cadarn ar waith, sy'n gweithredu yn unol â'r gofynion statudol.
- ***Datblygu strategaeth a newidiadau hirhoedlog*** drwy gyflawni'r ymrwymiad yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd 2025-2028.
- ***Creu diwylliant, arweinyddiaeth ac ymgysylltiad tosturiol*** drwy ddatblygu sefydliadol a modelau priodol o hyfforddiant iaith Gymraeg i wella sgiliau iaith y gweithlu presennol.
- ***Gwella ansawdd, canlyniadau a phrofiadau*** drwy sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r "Cynnig Gweithredol", gydag ymrwymiad gweladwy i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar anghenion iaith.
- ***Sefydlu amgylchedd effeithiol ar gyfer dysgu*** drwy bartneriaethau prifysgol, gan wreiddio'r Gymraeg yn sgil gwerthfawr wrth ymgeisio am swyddi yn y sector iechyd.

### Yr hyn sydd wedi'i gyflawni

Wrth werthuso'r sefyllfa bresennol yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn ystod y flwyddyn adrodd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflawni ei nodau.

Mae rhai o'r cyflawniadau allweddol hyn yn cynnwys:

- Gwell cydymffurfiaeth statudol yn y Cymunedau Iechyd Integredig trwy ddilyn dulliau hunanasesu dwys a chynhwysfawr.

- Gwell cydymffurfiaeth yn gyffredinol wrth greu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog ac amlygu’r Gymraeg.
- Cynnydd yn nifer y bobl sy'n mynychu hyfforddiant iaith Gymraeg, yn ogystal â bodloni'r holl dargedau hyfforddi a sefydlwyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel rhan o Gytundeb 'Cymraeg Gwaith' 2024-2025 er mwyn sicrhau parhad y gefnogaeth ariannol.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth a gweithdai a gyflwynwyd yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru, Prifysgol Wrecsam a nifer o leoliadau addysg uwchradd ac uwch, gan ddangos sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gweithle.
- Cynnal ymgyrch lwyddiannus ‘Defnyddiwch eich Cymraeg’ i ymgysylltu â staff, gan godi ymwybyddiaeth am y “Cynnig Gweithredol” a rhannu gwybodaeth am ganlyniadau cadarnhaol i gleifion er mwyn gwella dysgu.

Bydd yr adroddiad yn manylu ar yr hyn a gyflawnwyd a sut yr aethpwyd ati i’w cyflawni.

Rhoddwyd ystyriaeth i’r cyflawniadau hyn wrth osod yr amcanion ar gyfer nodi’r sefyllfa y dymuna’r Bwrdd Iechyd fod ynddi ymhen blwyddyn.

### Gosod uchelgais ar gyfer 2025-2026

Nodir y weledigaeth ar gyfer y dyfodol yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd 2025-2028, a bydd y flwyddyn adrodd nesaf yn canolbwyntio ar adeiladu ar y seilwaith cadarn a grëwyd gan y dull strategol a gymerwyd i gyflawni Safonau'r Gymraeg.

Bydd yn nodi pa grwpiau agored i niwed i'w cefnogi, o safbwynt y claf ac o safbwynt y gweithlu. Gwneir gwaith ychwanegol i hyrwyddo defnyddio’r Gymraeg yn y sefydliad. Cyflawnir hyn gam wrth gam, trwy gynyddu gwelededd a phresenoldeb cymdeithasol, ymgysylltu â staff, a mabwysiadu Rhaglen Hyrwyddwyr Iaith i ddangos sut y gellir ymgorffori a normaleiddio'r iaith yn y swyddogaethau craidd.

## Y Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

Yn ogystal ag adlewyrchu cynnydd y Bwrdd Iechyd o ran gofynion Safon 120, mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y cynlluniwyd y gwasanaeth i fynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth.

Mae Tîm y Gymraeg y Bwrdd Iechyd wedi'i strwythuro i sicrhau bod ei ffrydiau gwaith yn darparu'r mecanweithiau cymorth angenrheidiol sy'n ofynnol i brif ffrydio gofynion iaith wrth gynllunio gwasanaethau. Mae hefyd yn darparu rhwydwaith o gefnogaeth ar lefel weithredol i sicrhau bod yr holl ohebiaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu'n ddwyieithog, a bod strwythur ar waith i ddatblygu'r gweithlu i wella eu sgiliau iaith.

Mae'n cynnwys pedwar gwasanaeth sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni gofynion deddfwriaethol ac i fynd i'r afael ag anghenion cleifion.

1. <u>Cydymffurfio â Deddfwriaeth</u>
   Sicrhau bod y sefydliad yn cael cymorth i gyflawni ei rwymedigaethau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

2. <u>Hybu ac Ymgysylltu</u>
   Yn unol ag elfennau gweithredol cyflawni’r cynllun pum mlynedd ‘Mwy na geiriau’, mae

gwasanaethau’n cael cymorth rhagweithiol, a phrosiectau a chynlluniau'n cael eu lansio i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiwylliant, a’r effaith ar ofal cleifion.

3. Darparu Hyfforddiant
Mae Rhaglen Hyfforddiant y Gymraeg wedi'i theilwra i fynd i'r afael â gofynion amrywiol wasanaethau, ynghyd â chefnogaeth ychwanegol a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda’r cytundeb 'Cymraeg Gwaith' a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

4. Gwasanaethau Cyfieithu
Mae'r Tîm Cyfieithu'n sicrhau bod y sefydliad yn gallu darparu gwybodaeth ar gyfer cleifion yn eu dewis iaith, ac maent hefyd yn cyfieithu ar y pryd er mwyn hwyluso dewis iaith mewn lleoliadau clinigol a chorfforaethol.

## Hunanreoleiddio a Llywodraethu

Ceir atebolrwydd strwythurol drwy Fforwm Strategol y Gymraeg (y Fforwm Strategol), a gadeirir gan Gyfarwyddwyr Gweithredol, ac mae Cadeirydd y Bwrdd Iechyd wedi'i benodi'n Hyrwyddwr y Gymraeg ar lefel y Bwrdd. Y Fforwm Strategol sy'n gosod y trefniadau llywodraethu mewnol. Mae'r Cylch Gorchwyl yn llywio'r dulliau strategol, ac mae'r aelodaeth yn cynnwys uwch arweinwyr ac arweinwyr gweithredol sy'n gallu hybu’r gofynion. Mae llwybr craffu ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw faterion o bwys i'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, yn ogystal â rhoi adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar gydymffurfiaeth a chyflawniadau.

### Cofrestr Risg Gwasanaethau'r Gymraeg

Mae'n hanfodol bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod meysydd risg posibl mewn perthynas â'r Gymraeg ac mae Cofrestr Risg bwrpasol ar waith. Mae'r risgiau presennol yn cynnwys bodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rhoi egwyddor y "Cynnig Gweithredol" ar waith yn unol â’r cynllun 'Mwy na geiriau', a chyflawni 'Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog'.

Adolygwyd yr holl risgiau yn ystod 2024-2025, a graddiwyd pob un o'r tair sgôr risg fel rhai cymedrol neu fach. Wrth asesu'r sefyllfa bresennol, nid oedd angen uwchgyfeirio unrhyw risgiau.

Caiff Cofrestr Risg y Gwasanaethau Cymraeg ei monitro'n chwarterol, ac adroddir arni ddwywaith y flwyddyn i Fforwm Strategol y Gymraeg.


### Sicrwydd Perfformiad Mewnol

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad cyfun o arolwg o Wasanaethau Dwyieithog gan Siopwyr Cudd a gynhaliwyd ar draws lleoliadau'r Byrddau Iechyd dros gyfnod y flwyddyn adrodd. Roedd yr arolwg yn cynnwys safleoedd acíwt, ysbytai cymunedol, gwasanaethau arbenigol a phractisau a reolir. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar wasanaethau rheng flaen a chreu amgylchedd dwyieithog drwy fonitro:

- Gwasanaethau Derbynfa
- Gwasanaethau Ffôn
- Arwyddion


Mae'n bleser nodi bod y canfyddiadau'n adlewyrchu ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau cynhwysol, dwyieithog i gleifion ac ymwelwyr.

Mae cynnydd cyson yn y canran o dderbynfeydd sy'n ymateb yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n adlewyrchu cynnydd mewn ymwybyddiaeth a chapasiti ymhlith staff rheng flaen i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Gwneir ymdrech gyson i gyfarch cleifion ac ymwelwyr, gyda llawer o safleoedd yn cynnig cyfarchion niwtral neu ddwyieithog.





*Ffigur 1: Canran y derbynfeydd sy'n ymateb yn llawn drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Bu cynnydd amlwg mewn gwasanaethau ffôn drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ddangos gwell cydymffurfiaeth a hyfforddiant i staff.





*Ffigur 2: Cyfran y galwadau ffôn a gafodd eu cyfarch yn ddwyieithog.*

Mae'r gallu i ymdrin â galwadau'n llawn drwy gyfrwng y Gymraeg wedi gwella, gyda mwy o staff naill ai'n ymateb yn uniongyrchol neu'n trosglwyddo i gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Roedd negeseuon peiriant ateb dwyieithog hefyd yn amlwg, gan gynnal y safonau ar draws y sefydliad.




*Ffigur 3: Canran yr ymholiadau ffôn yr ymdriniwyd â nhw drwy gyfrwng y Gymraeg.*

Mae cydymffurfiaeth arwyddion dros dro â Safonau'r Gymraeg wedi dangos cynnydd cadarnhaol, gyda sawl safle yn llwyddo i gydymffurfio'n llwyr. Roedd arwyddion parhaol bron pob safle yn gwbl ddwyieithog ac yn arddangos amlygrwydd cyfartal.




*Ffigur 4: Cydymffurfiaeth arwyddion dros dro â Safonau'r Iaith Gymraeg.*

I gloi, mae'r canlyniadau o bob cyfnod adrodd yn dangos llwybr cynnydd cadarnhaol yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog y Bwrdd Iechyd i gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg. Er bod meysydd i'w datblygu o hyd, mae'r darlun cyffredinol yn un o ymroddiad, ac ymrwymiad cynyddol i ymgorffori'r Gymraeg mewn rhyngweithiadau gofal iechyd bob dydd. Mae hyn yn sicrhau bod gwaith y Bwrdd Iechyd yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau statudol, ac yn meithrin amgylchedd sy'n fwy cynhwysol ac yn parchu diwylliant.

Bydd ymdrechion parhaus a thargedu camau gweithredu yn parhau i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog ar draws pob safle.

## Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg (y Safonau) ar waith ers y dyddiad gweithredu, sef 30 Mai 2019. Bu cynnydd sylweddol o ran bwrw ymlaen â gweithredu'r Safonau, monitro cydymffurfiaeth a rhoi cyfarwyddyd ar draws y sefydliad.

### Cymorth Dwys a Dadansoddi Data

Bu'r gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn canolbwyntio'n bennaf ar weithio gyda'r tair Cymuned Iechyd Integredig (IHC) ledled gogledd Cymru (y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin), ar roi cynlluniau gweithredu ar waith yn dilyn hunanasesiad o gydymffurfiaeth.

Cynhaliwyd ymarfer gwerthuso eang gyda'r tair IHC ledled gogledd Cymru er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safonau'r Gymraeg. Mae'r gwerthusiad hwn yn galluogi dealltwriaeth well am gydymffurfiaeth y gwasanaethau yn erbyn pob Safon, er mwyn canfod lefelau cydymffurfio presennol a rhoi tystiolaeth i gefnogi adolygiadau. Aethpwyd i'r afael â meysydd o ddiffyg cydymffurfio posibl drwy gynlluniau gweithredu a oedd yn targedu meysydd penodol lle'r oedd angen cymorth ychwanegol.
Y prif ffocws oedd cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, h.y. y gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd. Dyma'r meysydd lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweld y nifer fwyaf o gwynion dros y tair blynedd adrodd ddiwethaf, sef:

- Gohebiaeth (Safonau 1-7)
- Ateb y ffôn (Safonau 8, 9, 10)
- Dogfennau a ffurflenni (Safonau 36-28)
- Arwyddion (Safonau 47-49)
- Gwasanaethau Derbynfa (Safonau 50-53)

Ar y cyfan, roedd y prif ganfyddiadau'n dangos sgôr gadarnhaol gyffredinol, gyda 'Gohebiaeth' a 'Dogfennau a Ffurflenni' yn arddangos y lefel uchaf o gydymffurfiaeth.

Y meysydd gyda'r lefel uchaf o gydymffurfiaeth gymysg oedd 'Gwasanaethau Ffôn' a 'Gwasanaethau Derbynfa'. Blaenoriaethwyd y gwaith o fynd i'r afael â'r bylchau yn y gwasanaethau hyn gan eu bod yn aml, yn bwynt cyswllt cyntaf i lawer o gleifion a'u teuluoedd. Mae camau a gymerwyd i liniaru'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn y 'Polisi a Gweithdrefn Sgiliau Dwyieithog'. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r swyddi rheng flaen lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn faen prawf hanfodol wrth hysbysebu swydd. Os nad yw gwasanaethau wedi llwyddo i benodi siaradwyr Cymraeg, gellir, ar ôl dilyn proses gymeradwyo gadarn, hysbysebu swyddi gan nodi bod sgiliau iaith Gymraeg yn faen prawf dymunol ar yr amod bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn

dysgu Cymraeg o fewn amserlen benodol. Datblygwyd cwrs hyfforddi pwrpasol ar gyfer Staff Derbynfeydd ac mae'n cael ei gyflwyno mewn meysydd blaenoriaeth ar hyn o bryd.

| Safon | % cydymffurfio | | |
|---|---|---|---|
| | **IHC y Gorllewin** | **IHC y Canol** | **IHC y Dwyrain** |
| Gohebiaeth | **30%** | **83.1%** | **71.4%** |
| Gwasanaethau Ffôn | **70%** | **61.1%** | **50%** |
| Dogfennau a Ffurflenni | **20%** | **83.3%** | **50%** |
| Arwyddion | **70%** | **83.3%** | **64.3%** |
| Gwasanaethau Derbynfa | **40%** | **50%** | **28%** |

Mae'r gwaith hwn yn cael ei gyflwyno i Wasanaethau Gogledd Cymru gyfan ar hyn o bryd a bydd y dull yn cael ei fabwysiadu ar sail cylch parhaus o welliannau.

## Prif Ffrydio Gofynion Iaith

Bu cynnydd yn y gwaith i brif ffrydio gofynion y Gymraeg i fusnes craidd y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf yn y meysydd canlynol:

- Datblygiad Ysbyty Brenhinol Alexandra, Y Rhyl lle mapiwyd cwmpas a manteision yn erbyn nodau llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn sicrhau 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu';
- Y posibilrwydd o gaffael system e-restru Cymru gyfan, lle byddai manylebau technegol ar gyfer system gwbl ddwyieithog yn cael eu craffu i sicrhau bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi;
- Datblygu 'System Iechyd Meddwl i Bob Oedran' lle sicrhawyd gofynion yr iaith Gymraeg ym manylebau'r tendr, gan graffu ar allu cyflenwyr posibl i gyflenwi;
- Datblygu system cyngor a chymorth gwasanaeth i'r Gwasanaethau Anabledd Dysgu lle amlygwyd y gofyniad am gynnwys ymgynghoriadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn Offeryn Sgrinio Asesiad Integredig (IAST) y Bwrdd Iechyd, gan fynd i'r afael â dewis iaith a gofal yn cael ei ddarparu yn nes at adref.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu normaleiddio'r Gymraeg wrth ddatblygu gwasanaethau a seilweithiau digidol.

## Gweithdrefnau Gweithredu Safonol

Cynhyrchwyd Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP) i gyd-fynd â Safonau penodol, gan ddarparu canllawiau manwl i staff er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth gywir. O ganlyniad, bu'n bosibl blaenoriaethu meysydd o bryder a amlygwyd naill ai gan bryderon allanol neu drwy'r offeryn hunanasesu. Lluniwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer y canlynol:

- Cyfarfodydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd (Safonau 21, 22, 22a a 22ch)
- Gwasanaethau derbynfa (Safonau 50, 52 a 53)
- Gohebu â'r cyhoedd (Safon 7)
- Ateb y ffôn (safonau 8, 9 a 10)

Cyhoeddwyd pob gweithdrefn ar 'BetsiNet', safle mewnrwyd y Bwrdd Iechyd. Bydd gwaith yn parhau yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf i greu rhagor o weithdrefnau gweithredu safonol i gynnwys yr holl Safonau.

**Cynyddu capasiti'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn unol â Safon 110**

Cymeradwywyd cynllun pum mlynedd ar gyfer Safon 110 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gynyddu ei allu i gynnig cynnal ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg) gan Fforwm Strategol y Gymraeg. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ddatblygu gwasanaethau dwyieithog drwy recriwtio, cynefino a hyfforddiant, cynllunio, nodi iaith gyntaf cleifion, ymgysylltu, a diwylliant. Wrth i'r gwaith o graffu ar y cynllun fynd rhagddo'n fewnol, cynhaliwyd cynllun peilot gyda'r gwasanaeth dementia, sef un o'r grwpiau agored i niwed a nodwyd yn 'Mwy na geiriau'. Canolbwyntiodd y gwasanaeth ar egwyddor y "Cynnig Gweithredol" o ddarparu gwasanaethau i gleifion yn y Gymraeg, heb iddynt orfod gofyn amdano. Gwnaed hyn fel rhan o 'Wythnos Gweithredu ar Ddementia' a chafodd ei weithredu drwy'r cynllun 'Dewis Iaith' lle gosodir magnetau oren 'Cymraeg' ar fwrdd gwybodaeth uwchben gwely'r claf.





Mae'r gwaith hwn bellach yn cael ei ehangu i gynnwys Gwasanaethau Strôc, grŵp blaenoriaeth arall a nodir yn 'Mwy na geiriau'.

## Rhaglen Datblygu'r Gweithlu

Mae Tîm Hyfforddiant y Gymraeg y Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno ystod eang o gyrsiau iaith Gymraeg wedi'u teilwra i anghenion y sefydliad, gyda chynnydd o 29 y cant yn nifer y staff sy'n dysgu Cymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd.




Mae'r Tîm wedi mabwysiadu dull uniongyrchol o alinio darpariaeth hyfforddiant yn strategol â gofynion deddfwriaethol, gan nodi bylchau dysgu yn systematig ar draws y sefydliad. Mae cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, ac mae grwpiau blaenoriaeth wedi derbyn cymorth uniongyrchol er mwyn canolbwyntio'r ymdrechion ar gynyddu'r capasiti i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Adnewyddodd y Tîm Hyfforddiant y Gymraeg gontract deuddeg mis gyda'r 'Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol' o dan y cynllun 'Cymraeg Gwaith' a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn dilyn y llwyddiannau a gyflawnwyd yn ystod cytundeb 2023-2024, gan sicrhau parhad mewn cyfleoedd a chydweithio yn ogystal â galluogi cyflogi Swyddog Cymorth.

## Dadansoddiad o Ddata Darpariaeth Hyfforddiant y Gymraeg

Cynigiwyd 22 o gyrsiau hyfforddi iaith Gymraeg gwahanol drwy gydol y flwyddyn.

Cynyddwyd nifer y sesiynau wyneb yn wyneb wedi'u teilwra ar gyfer gwahanol adrannau/Timau, gan gynnwys Therapi Iaith a Lleferydd.

Mae tiwtor mewnol wedi addysgu dros 200 o aelodau o staff.
Cymysgedd o sesiynau 1:1 a sesiynau grŵp.
Cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y sector gofal iechyd.

Roedd 96% o'r dysgwyr yn 'hapus iawn' gyda'r ddarpariaeth.
Roedd 100% o’r dysgwyr wedi ‘mwynhau’ mynychu'r cyrsiau.
Parhaodd 71% i ddysgu Cymraeg ar ôl cwblhau cwrs.

Adnewyddwyd contract 12 mis gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.
Cafodd 782 o aelodau

Bu cynnydd o 32% yn y dysgwyr ar y cyrsiau ‘Cymraeg Gwaith’ ar-lein, â’r cyrsiau hunanastudio yn boblogaidd iawn.

Mae naw Aelod o'r Bwrdd wedi mynychu gwersi 1:1 drwy Teams.

Pasiodd tri aelod o'r bwrdd yr arholiad Cymraeg Cwrteisi.

Mynychodd 37 aelod o staff gyrsiau dwys 5 diwrnod yn Nant Gwrtheyrn.

Mae grŵp Facebook ‘Y Gymraeg yn Betsi’ yn parhau i arddangos enghreifftiau o arfer da a straeon llwyddiant, gyda 483 o ddilynwyr ar hyn o bryd, sy’n gynnydd o 25% ers mis Ebrill 2024.

Llwyddodd dau aelod o staff i ennill ‘Tystysgrif Sgiliau Iaith’ – cymhwyster achrededig gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Enillodd Dr Darren Cornish 'Wobr y Gymraeg' yng Ngwobrau Cyflawniad BIPBC 2024. Mae wedi bod yn astudio a dysgu Cymraeg gyda Thiwtor Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd.

## Gwasanaethau Cyfieithu

Mae’r Tîm Cyfieithu yn cynorthwyo holl wasanaethau’r Bwrdd Iechyd ar ffurf gwasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Mae'r galw parhaus am gyfieithu yn dangos ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaeth dwyieithog di-dor ac amserol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn unol â'r gofynion statudol, ac amlygrwydd cynyddol yr iaith yng ngweithrediadau'r Bwrdd Iechyd.

Mae'r Tîm yn parhau i sicrhau bod safonau rheoli ansawdd yn cael eu cynnal ym mhob agwedd ar gyfieithu, gan flaenoriaethu gwybodaeth sy'n sensitif i amser fel bod staff a chleifion yn gallu cael mynediad at wybodaeth yn eu dewis iaith.

Yn 2024/25, cytunodd y tîm ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddarparu cymorth cyfieithu ar gyfer ceisiadau ysgrifenedig. Bu'r cydweithio hyn yn llwyddiannus, a chytunodd y ddwy ochr i barhau a'r trefniant yn 2025-2026. Gwerth y SLA oedd ymgymryd â chyfieithu 480,000 o eiriau dros gyfnod y cytundeb, gan dderbyn cyfanswm o fwy na £28,000.

Cynhelir cyfarfodydd y bwrdd yn ddwyieithog, gydag eitemau a phapurau'n cael eu hasesu a'u cyfieithu, a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Gan fod y cyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw ar-lein, mae fideos Cymraeg a Saesneg yn cael eu ffrydio ar yr un pryd fel bod y cyhoedd yn gallu dilyn trafodaethau'n llawn yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Mae ceisiadau brys am gyfieithiadau wedi cynnwys datganiadau i'r wasg, gohebiaeth i gleifion, adroddiadau blynyddol a gwybodaeth ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae ceisiadau gan y cyhoedd a chleifion yn cael blaenoriaeth gydag amserlen ymateb o fewn yr un diwrnod neu 1-2 ddiwrnod gwaith. Darperir gwasanaeth y tu allan i oriau hefyd ar gyfer cyfathrebiadau brys.

Cyfanswm nifer y geiriau a gyfieithwyd yn ystod y flwyddyn adrodd oedd 4,648,140 o'i gymharu â 3,721,696 yn ystod 2023-2024. Mae hwn yn gynnydd sylweddol ac mae'r tabl isod yn dangos y pum gwasanaeth sydd â'r galw uchaf am gyfieithiadau, gyda'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol yn cynrychioli'r gwasanaeth sydd â’r galw uchaf. Mae'r ceisiadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfieithu disgrifiadau swydd, gan sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safon 107 sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob disgrifiad swydd fod ar gael yn ddwyieithog.

| Gwasanaeth | Nifer y geiriau a gyfieithwyd |
|---|---|
| Y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol | 1,361,424 |
| Y Swyddfa Gorfforaethol | 289,626 |
| Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu | 177,009 |
| Y Tîm Cyfathrebu | 160,867 |
| Gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd | 146,887 |

Mae'r Tîm Cyfieithu yn parhau i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd a ddarperir naill ai wyneb yn wyneb neu ar lwyfannau ar-lein 'Zoom' a 'Microsoft Teams'. Derbyniwyd cyfanswm o 45 o geisiadau gyda'r mwyafrif yn gofyn am gyfieithu ar y pryd ar gyfer digwyddiadau, cyfarfodydd a chynadleddau rhanddeiliaid, a chyfweliadau ag ymgeiswyr sy'n dymuno cynnal eu cyfweliadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Codi Ymwybyddiaeth ymhlith y Gweithlu Nawr ac yn y Dyfodol

### Codi Ymwybyddiaeth Iedled y Sefydliad

Ym mis Ionawr 2023, lansiwyd pecyn e-ddysgu newydd Ymwybyddiaeth Iaith ar system Cofnodion Staff Electronig. Mae'n rhan o'r Rhaglen Hyfforddiant Gorfodol y mae'n rhaid i'r holl staff ei chwblhau, a'i hailadrodd bob tair blynedd. Mae'r ffigurau isod yn dangos bod 92.3 y cant o'r gweithlu wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn, sy'n gynnydd o 5.16 y cant o'i gymharu â'r llynedd. Mae hyn yn uwch na tharged 85 y cant y Bwrdd Iechyd ar gyfer Hyfforddiant Gorfodol. Cynhaliwyd tri Diwrnod Hyfforddi Gorfodol eleni hefyd i ddarparu'r hyfforddiant hwn wyneb yn wyneb i'r rhai sydd â chyfradd cydymffurfio isel, neu'r rhai sydd â phroblemau mynediad.

Comp Matrix - Default

| Division | Compliant | Non-Compliant | Compliance % |
|---|---|---|---|
| Health Community Centre (HCCX) | 4533 | 537 | 89.41% |
| Health Community East (HCEX) | 4807 | 377 | 92.73% |
| Health Community West (HCWX) | 3855 | 268 | 93.50% |
| Integrated Clinical Delivery - Primary Care (ICDP) | 396 | 13 | 96.82% |
| Integrated Clinical Delivery - Regional Care (ICDR) | 1368 | 145 | 90.42% |
| Mental Health & LDS (MX00) | 2096 | 103 | 95.32% |
| Midwifery and Womens Services (WXXX) | 733 | 93 | 88.74% |
| Corporate Services | 2043 | 118 | 94.54% |
| **Total** | **19831** | **1654** | **92.30%** |

## Ymgyrch 'Defnyddiwch eich Cymraeg'

Cynhaliwyd yr ymgyrch hwn ym mis Mawrth gyda'r nod o dynnu sylw at bwysigrwydd cynnig gwasanaethau i gleifion yn y Gymraeg, a'u hannog i ddefnyddio pa bynnag lefel o Gymraeg sydd ganddynt. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn ystod yr ymgyrch, gan gynnwys:

Stondinau yn y tri phrif ysbyty lle daeth staff i dderbyn cyngor ac arweiniad ar wahanol bynciau yn ymwneud â gwasanaethau dwyieithog; casglu adnoddau a dod o hyd i fanylion pellach am yr ystod o gyrsiau hyfforddi Cymraeg sydd ar gael.

Stori am brofiad cadarnhaol gan glaf i dynnu sylw at y gwasanaeth rhagorol a ddarperir yn y Gymraeg ar Ward y Plant, Ysbyty Glan Clwyd.

Lansio cwrs meithrin hyder 1:1 i staff Turbo Charge Your Welsh'

Rhaglen arbennig ar Radio Ysbyty Gwynedd i glywed am brofiadau a siwrne rhai o ddysgwyr Cymraeg y Bwrdd Iechyd.

Lansio 'Cwrs Croeso' newydd i ddechreuwyr llwyr.

Dosbarthu adnoddau ategol, gan gynnwys taflen o eirfa i roi hyder i staff ddefnyddio'u Cymraeg yn ystod cyfarfodydd, yn ogystal â rhannu clipiau YouTube i helpu ag ynganu geirfa ac ymadroddion.









Mae rhai o'r prif lwyddiannau eraill a gododd ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg a gynigir i gleifion yn cynnwys:



- Dathliadau Dydd Gŵyl Dewi, gyda ffocws ar bwysigrwydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i blant. Cynhaliwyd digwyddiadau ar wardiau'r Plant yn y tri phrif safle, gydag ymweliadau arbennig gan y cymeriadau cartŵn poblogaidd 'Dewin' a 'Doti'. Cynhaliwyd sesiynau stori ar y cyd â 'Cymraeg i Blant' ar y wardiau a chafwyd cyfle i ganu hwiangerddi.
- Ymwelodd Comisiynydd y Gymraeg ag Ysbyty Glan Clwyd i ddysgu mwy am gyflawniadau'r Bwrdd Iechyd o ran y Gymraeg ar draws gwasanaethau gan gynnwys cynnig gwasanaethau'n weithredol yn y Gymraeg yn yr Adran Fferylliaeth, Gwasanaethau'r Gaplaniaeth a Wardiau'r Plant. Roedd yn gyfle gwych i ddangos sut mae'r Gymraeg yn cael ei chynnwys fwyfwy mewn gwaith bob dydd ledled y Bwrdd Iechyd.
- Roedd Tîm y Gymraeg ar y rhestr fer yn y categori 'Gofal Teg' yng Ngwobrau GIG Cymru am ei waith yn gweithredu'r 'Cynllun Dewis Iaith'.



## Dylanwadu ar Weithlu'r Dyfodol

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud y mwyaf o'i waith partneriaeth â phrifysgolion, ysgolion a phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg fel sgil yn y gweithle. Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth a gweithdai i'r canlynol:

- Myfyrwyr meddygaeth yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru fel rhan o'r Rhaglen Feddygaeth newydd.
- Myfyrwyr gofal iechyd nifer o arbenigeddau ym Mhrifysgol Wrecsam.
- Disgyblion mewn nifer o ysgolion uwchradd ledled Gogledd Cymru.
- Myfyrwyr a disgyblion fel rhan o ddigwyddiadau 'Gyrfaoedd Cymru'.

Mae'r adborth wedi bod yn hynod gadarnhaol ym mhob disgyblaeth, gyda myfyrwyr, partneriaid a darparwyr yn canmol y Bwrdd Iechyd am gyflwyno sesiynau, ac am ei ddull rhagweithiol o gysylltu â gweithlu'r dyfodol.

# Rhannu Canlyniadau Cadarnhaol i Gleifion



Fel rhan o'r ymgyrch 'Defnyddiwch eich Cymraeg', i rannu dysgu, cafodd stori gadarnhaol gan glaf ei rhannu'n eang yn y Bwrdd Iechyd. Soniodd Delyth Roberts am ei phrofiad o allu cael gofal drwy gyfrwng y Gymraeg pan gafodd ei merch chwech oed a oedd yn ddifrifol wael, ei derbyn i Ward y Plant yn Ysbyty Glan Clwyd.

Drwy fyfyrio ar y stori hon, mae modd cadarnhau'r hyn y mae gwasanaethau'n ymdrechu i'w gyflawni:

- Amgylchedd lle mae cleifion a'r cyhoedd yn cael sicrwydd bod eu dewis iaith yn cael ei ystyried.
- Lleoliad gofal lle mae dewis iaith yn gynnig rhagweithiol.
- Pecyn gofal gwell sy'n ystyried cyd-destun ac anghenion ehangach cleifion.



Pa drefniadau oedd ar waith ar Ward y Plant yn Ysbyty Glan Clwyd i gyflawni hyn:

- Cofnodi dewis iaith, a gweithredu arno.
- Gosod magnetau oren ‘Cymraeg’ uwchben gwely’r claf i sicrhau bod y gweithlu clinigol ehangach yn ymwybodol o ddewis iaith y claf.
- Y gallu i adnabod staff sy'n siarad Cymraeg oherwydd y logo oren 'Cymraeg' ar eu gwisg.
- Creu amgylchedd dwyieithog gyda llyfrau, gweithgareddau a theganau Cymraeg.
- Aelodau o staff nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw.



Felly, roedd y canlyniadau a gyflawnwyd a'r profiad yn gyffredinol yn gadarnhaol:

- Roedd y fam a'r plentyn yn teimlo'n fwy cyfforddus mewn sefyllfa a oedd yn un hynod o ofidus.
- Teimlai'r fam fod rhywun yn gwrando ar eu hanghenion ac yn gweithredu arnynt.
- Cyfathrebu'n well â'r staff, a'r plentyn yn gallu disgrifio ei symptomau ei hun heb i'r fam orfod ymyrryd.
- Tynnu'r pwysau o orfod gofyn am unrhyw agwedd ar y gofal yn y Gymraeg.

Drwy rannu profiadau cadarnhaol, mae'n bosibl dangos sut y gellir atgynhyrchu'r camau hyn ar draws meysydd eraill y Bwrdd Iechyd. Roedd Delyth eisiau rhannu ei phrofiad i ddangos ei gwerthfawrogiad am y gwasanaeth a gafodd ei merch a hi. Cynhyrchwyd fideo sy'n manylu ar daith Delyth.

[Stori Claf / Patient Story 'Defnyddiwch eich Cymraeg']





## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r data a gynhwysir isod yn unol â Safon 120 o Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### Cynllunio'r Gweithlu

- ***Nifer a chanran gweithwyr y sefydliad y mae eu sgiliau Cymraeg wedi eu hasesu***

| Nifer y Gweithwyr | **2022/23** | | **2023/24** | | **2024/25** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lefel Hyfedredd Unigol | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % | Cyfanswm | % |
| 0 – No Skills / Dim Sgiliau | 9101 | 46.9% | 9645 | 46.25% | 10217 | 48.32% |
| 1 – Entry/ Mynediad | 2914 | 15% | 2781 | 13.34% | 2739 | 12.96% |
| 2 – Foundation / Sylfaen | 1410 | 7.3% | 1371 | 6.57% | 1394 | 6.59% |
| 3 - Intermediate / Canolradd | 1456 | 7.5% | 1438 | 6.9% | 1472 | 6.96% |
| 4 – Higher / Uwch | 1700 | 8.7% | 1588 | 7.62% | 1600 | 7.57% |
| 5 – Proficiency / Hyfedredd | 2829 | 14.6% | 2743 | 13.15% | 2778 | 13.14% |
| Cyfanswm | 19,410 | 91% | 19,566 | 93.8% | 20,200 | 95.54% |
| Cyfanswm staff | 21,326 | | 20,852 | | 21,142 | |

**Data 2024 / 2025:**

**Roedd 95.54 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

**Data 2023 / 2024:**

**Roedd 93.8 y cant o'r gweithlu cyfan wedi cofnodi eu sgiliau Cymraeg ar ESR**

## Hyfforddiant i Wella Sgiliau Cymraeg

- ***Nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a gafodd hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg hyd at gymhwyster penodol***

**Data 2024 / 2025:**

**Nifer o weithlu'r sefydliad sydd wedi cael mynediad at hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at gymhwyster penodol: 995**

**Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 4.7 y cant o weithlu presennol y Bwrdd Iechyd.**

**Data 2023 / 2024:**

**Nifer o weithlu'r sefydliad sydd wedi cael mynediad at hyfforddiant i wella eu sgiliau Cymraeg at gymhwyster penodol: 771***

**Mae'r cyfanswm hwn yn cyfateb i 3.6 y cant o weithlu presennol y Bwrdd Iechyd.**

## Recriwtio

- ***Nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd gyda'r gofyniad bod:***

**Data 2024 / 2025:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 301 (6.5 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 4238 (92.2 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i'w dysgu - 49 (1.1 y cant)**
- **Cymraeg ddim yn sgil gofynnol - - 8 (0.17 y cant)**

- **Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd - 4596**

**Data 2023 / 2024:**

- **Sgiliau Cymraeg yn hanfodol - 298 (5.5 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg yn ddymunol - 5048 (93 y cant)**
- **Sgiliau Cymraeg i'w dysgu - 66 (1.2 y cant)**
- **Cymraeg ddim yn sgil gofynnol - 14 (0.2 y cant)**
- **Cyfanswm nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd - 5426**
-

## Cwynion

- ***Nifer y cwynion a dderbyniwyd am weithredu Safonau'r Gymraeg***

Derbyniodd y Bwrdd Iechyd chwech o gwynion newydd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd.

Roedd y cwynion yn cynnwys:

- Diffyg gwasanaethau derbynfa yn y Gymraeg.
- Arwyddion dros dro.
- Ni ystyriwyd dewis iaith fel rhan o gynnal asesiad y claf yn y gwasanaethau niwroddatblygiadol.

Ymdriniwyd yn llawn â phob cwyn yn unol ag amserlen cwynion Mesur y Gymraeg neu o dan Reoliadau Gweithio i Wella.

Ni chafodd yr un o'r cwynion eu huwchgyfeirio i statws ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg, a chafodd yr holl gwynion eu datrys ar ôl y cyfathrebu cychwynnol. Arweiniodd dwy gŵyn at dderbyn Cyngor o dan Adran 4 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, lle gofynnwyd i'r Bwrdd Iechyd ddarparu eglurhad pellach i ddangos tystiolaeth o ganfyddiadau mewnol.

## Edrych yn Ôl a Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol

Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod cynnydd yn y meysydd canlynol:

- Gwella ansawdd y gofal a ddarperir drwy gyfrwng y dewis iaith
- Cynyddu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a statudol.
- Nodi mentrau sydd wedi'u gweithredu a'u cyflwyno i ymateb i angen iaith fel elfen annatod o ofal.
- Gwella datblygu sefydliadol o ran sut mae'r gweithlu'n cael ei gefnogi i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Serch hynny, mae'r Bwrdd Iechyd yn edrych ymlaen at weld y mentrau a'r cyfleoedd sy'n cael eu datblygu ar gyfer y flwyddyn adrodd nesaf yn dwyn ffrwyth. Mae rhaglenni pellach ar y safle wedi'u cynnwys yng Nghynllun Cyflenwi Blynyddol Gwasanaethau'r Gymraeg, yn ogystal ag ymestyn cymorth i gydweithwyr gofal sylfaenol. Mae'r prif amcanion yn cyd-fynd â'r weledigaeth i gofleidio diwylliant y sefydliad yn llawn, a chynyddu'r gallu i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog.